

Y diweddaraf ar gynlluniau Parc Dŵr y Rhyl



Mae cynigion cyffrous ar gyfer parc dŵr newydd sbon yn y Rhyl wedi symud gam yn agosach wrth i'r cais cynllunio ar gyfer atyniad hamdden uchelgeisiol gael ei gyflwyno ar gyfer ystyriaeth.

Roedd Aelodau Cyngor Sir Ddinbych yn cefnogi'r cynnig ar gyfer y Parc Dŵr yn ffurfiol yn gynharach eleni – gyda'r Cyngor, Cyngor Tref y Rhyl a Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth ariannol ar gyfer y datblygiad.

Mae'r cynnig yn cynnwys gofod dŵr 1,200 metr sgwâr, gyda reidiau dŵr dan do ac awyr agored, ffrâm chwarae a sleidiau dŵr i blant, man gweithgareddau uchder dwbl i blant, cyfleusterau dringo, ystafelloedd ar gyfer partion, derbynfa, ardaloedd gwerthu, Pwll Sblasio y tu allan – dau bad sblasio gwlyb, ardaloedd ar gyfer gwelyau haul a therasau â chaffis i ddarparu adloniant chwarae gwlyb.

Bydd yno gabanau newid a thoiledau fel rhai ar y traeth hefyd yn y parth sblasio awyr agored, yn ogystal â bar a theras at gyda'r nos.

Bydd y datblygiad yn creu 60 o swyddi newydd ac yn denu 350,000 o ymwelwyr ychwanegol i'r dref bob blwyddyn. Yn amodol ar ganiatâd cynllunio, bydd gwaith yn dechrau fis Medi 2017 a bydd y cyfleusterau newydd ar agor yn fuan yn 2019.

Bydd y cynigion, a luniwyd mewn partneriaeth ag Alliance Leisure yn golygu y bydd parc sglefrio'r dref yn symud hefyd. Bydd y Cyngor Sir yn ymgynghori â phobl ifanc leol i gydgyllunio'r parc sglefrio a bydd y cyfleuster newydd yn cynnig nodweddion newydd, mwy deniadol. Bydd pad sblasio a theras haul awyr agored llawer gwell yn dod yn lle'r pwll padlo, fel rhan o'r datblygiad.

Dyweddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol - Parth Cyhoeddus ac Economaidd Sir Ddinbych, Rebecca Maxwell: “Mae'r parc dŵr yn brosiect blaenllaw i'r Cyngor ac mae'r datblygiad yn elfen hanfodol o ymdrechion i gynyddu'r nifer sy'n ymweld â'r dref, creu swyddi a chynyddu faint sy'n cael ei wario yn yr economi leol. Mae hyn wedi bod yn allweddol i'n cynigion i ailddatblygu glan môr y dref ac mae'n rhan fawr o'n cynlluniau adnewyddu ar gyfer y Rhyl.



Dyweddodd Jamie Groves, Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai Sir Ddinbych: “Mae hon yn garreg filltir arwyddocaol i ddatblygiad y parc dŵr. “Mae llawer o ddisgwyl am sut y bydd y parc dŵr newydd yn edrych ac roedd y sesiwn i'r cyhoedd alw heibio yn sinema Vue yn ddiweddar yn rhoi blas i bobl ar y datblygiad uchelgeisiol a chyffrous sy'n cael ei gynnig. Mae'r adborth a dderbyniwyd gan y cyhoedd wedi bod yn hynod gadarnhaol.

Dyweddodd Gareth Nickels, Clerc Cyngor Tref y Rhyl: “Rydym yn croesawu cyflwyniad cais cynllunio'r parc dŵr sydd yn arwydd o gam nesaf adfywiad y Rhyl. Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn dangos yn glir fod cefnogaeth i'r cynllun fyddai'n dod ag atyniad newydd i'r Rhyl, yn ogystal â swyddi, ymwelwyr a chwsmeriaid.

Am wybodaeth bellach am y datblygiad arfaethedig, ewch i:

www.rhylwaterpark.co.uk

Nodyn i Olygyddion: I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Thîm Cyfathrebu Sir Ddinbych ar 01824 706222 neu Gyngor Tref y Rhyl drwy Gunsmoke Communications on 01745 889577.

